Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: ATISN 25045

08 Medi 2025

Annwyl ,

**Y cais**

Diolch i chi am eich ceisiadau a ddaeth i law ar 11 Awst 2025. Rydym yn crynhoi isod yr wybodaeth yr oeddech yn gofyn amdani sy'n ymwneud â gweithredu Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, sef *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*, a gyhoeddwyd yn 2017, gan gynnwys:

1. Cynlluniau a thargedau addysg cyfrwng Cymraeg
2. Data ar ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg
3. Asesiadau Effaith ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
4. Prosiectau technoleg iaith
5. Adroddiadau cynnydd ar y prosiectau technoleg iaith
6. Strategaethau technoleg/meddalwedd Cymraeg
7. Manylion cynllun Perthyn a rhaglen Arfor
8. Copïau o asesiadau effaith ar y Gymraeg ar gyfer cynlluniau tai newydd
9. Cofnodion cyfarfodydd neu ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sy'n ymwneud â chadw neu gynyddu defnydd cymunedol o'r Gymraeg.

**<u>ATISN 25045 - Ein hymateb</u>**

Isod, rydym yn dyfynnu'r ceisiadau fesul un ac yna yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol o dan bob pennawd:

1. **Cynlluniau gweithredu, targedau a ffigurau cynnydd ar gyfer cynyddu nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg hyd at 2050.**

   Mae'r wybodaeth hon ar gael drwy'r ddolen ganlynol: Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 i 2032 [HTML] | LLYW.CYMRU

2. **Data fesul blwyddyn (ers 2018) ar y ganran o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg, fesul awdurdod lleol.**

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cymraeg2050@llyw.cymru

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre
0300 0604400

Mae'r wybodaeth hon ar gael drwy'r ddolen ganlynol: Disgyblion a addysgir y Gymraeg fel iaith gyntaf fesul awdurdod lleol a grŵp blwyddyn

3. **Asesiadau effaith neu adolygiadau a wnaed ar y Cynllun Strategol Addysg Gymraeg (WESP) yng nghyd-destun Cymraeg 2050.**

Mae'r wybodaeth hon ar gael drwy'r ddolen ganlynol: Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg : Asesiad effaith integredig Llywodraeth Cymru

4. **Manylion am brosiectau technoleg iaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru ers 2018 fel rhan o Cymraeg 2050, gan gynnwys nodau, partneriaid a lefel y cyllid.**

Mae nodau a phartneriaid gwaith technoleg iaith y mae'r cyllid isod yn eu cefnogi ar gael drwy'r ddolen ganlynol: Technoleg Cymraeg | Is-bwnc | LLYW.CYMRU.

Dyma ein blaenoriaethau yn y maes.

Mae'r grid yn nodi ein gwariant yn y maes ers 2018-19.

| Blwyddyn | Swm |
|---|---|
| **2025 – 26** | £402,150 |
| **2024 – 25** | £383,000 |
| **2023 – 24** | £418,000 |
| **2022 – 23** | £493,000 |
| **2021 – 22** | £460,000 |
| **2020 – 21** | £467,000 |
| **2019 – 20** | £184,314 |
| **2018 – 19** | £100,000 |

5. **Copïau o unrhyw adroddiadau cynnydd neu werthusiadau mewnol ar y prosiectau hyn.**

Mae adroddiadau cynnydd ar ein gwaith technoleg wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan drwy'r ddolen ganlynol: Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg: adroddiad terfynol 2018 i 2024 | LLYW.CYMRU ac ar y ddolen hon hefyd: Technoleg Cymraeg a deallusrwydd artiffisial (AI): diweddariadau | LLYW.CYMRU

Nid ydym yn dal gwerthusiadau mewnol o'r prosiectau hyn.

6. **Dogfennau sy'n amlinellu strategaethau i sicrhau bod technoleg a meddalwedd newydd ar gael yn Gymraeg erbyn 2050.**

Mae'r holl ddogfennau perthnasol ar ein gwefan drwy'r ddolen ganlynol: Technoleg Cymraeg | Is-bwnc | LLYW.CYMRU.

7. **Manylion a gwerthusiadau o'r cynllun Perthyn a'r rhaglen Arfor, gan gynnwys effaith ar gymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol gryf.**

Dyma fanylion cynllun Perthyn: Perthyn Mapiau & Ystadegau - Cwmpas. Nid ydym wedi cyhoeddi gwerthusiad o'r cynllun hyd yma – bydd ar gael y flwyddyn nesaf.

Dyma fanylion Rhaglen ARFOR.

Dyma'r gwerthusiadau o Raglen ARFOR 1:
Gwerthusiad ARFOR - adroddiad terfynol - Hydref 2021.pdf

Gwerthusiad ARFOR - crynodeb - Hydref 2021.pdf

Nid yw gwerthusiad o Raglen ARFOR 2 wedi'i gyhoeddi hyd yma.

**8. Copïau o unrhyw asesiadau effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd ar gynlluniau tai newydd mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith.**

Mae'r wybodaeth hon ar gael drwy'r dolenni canlynol:

Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): asesiad o'r effaith ar y Gymraeg [HTML] | LLYW.CYMRU
Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg: asesiad effaith integredig | LLYW.CYMRU

**9. Cofnodion o unrhyw gyfarfodydd neu ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sy'n trafod cadw neu gynyddu defnydd cymunedol o'r Gymraeg.**

Mae gan nifer o  awdurdod lleol fforymau iaith. Gallwch gysylltu â nhw'n uniongyrchol i holi am ragor o fanylion.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod **ATISN** uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir